



## Bwletin Rhieni / Parents' Bulletin

### Gorffennaf / July 2015

#### RHAI DYDDIADAU PWYSIG / SOME IMPORTANT DATES

<b>Dydd Gwener/Friday</b> <b>17/07/2015</b>	Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf. <i>School closes for the summer holidays .</i>
<b>Dydd Iau/Thursday</b> <b>13/08/2015</b>	Canlyniadau Arholiadau Lefel Safon Uwch/UG. <i>AS/A Level Examination Results.</i>
<b>Dydd Iau/Thursday</b> <b>20/08/2015</b>	Canlyniadau Arholiadau TGAU. <i>GCSE Examinations Results.</i>
<b>Dydd Mercher/Wednesday</b> <b>02/09/2015</b>	Yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion. <i>School re-opens for pupils.</i>

#### HOLIADURON I RIENI

Fe ymatebodd 70 o rieni i gais yr ysgol i lenwi holiadur ar-lein am yr ysgol a chafwyd sawl sylw ac awgrym gwerthfawr hefyd. Fel ysgol yr ydym yn gyson yn edrych am ffyrdd i gryfhau ein perthynas gyda'n rhieni. Mae'n fwriad gan yr ysgol adrodd i chwi fel rhieni yn sgil yr ymatebion a gafwyd a bwriadwn wneud hynny yn y bwletin cyntaf ar ôl yr haf.

#### PARENTS' QUESTIONNAIRES

*70 parents completed the online questionnaires during May and some valuable comments and suggestions were received as well. As a school we always strive to strengthen our relationships with our parents. It is our intention to report fully to you as parents on the answers received and we intend to do so in the first parents' bulletin after the summer holidays.*

#### STAFF

Bydd Mrs Helen Holland a Mr Dafydd Harris Davies yn ymddeol ar ddiwedd y tymor a Mrs Amy Carter hefyd yn gorffen fel athrawes. Mae'r tri wedi bod yn yr ysgol ers dros 10 mlynedd ac wedi cyfrannu'n sylweddol i lwyddiant yr ysgol – Mrs Holland fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Mrs Carter fel Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Mr Harris Davies fel gweithiwr ieuentid. Dymunwn yn dda i'r tri i'r dyfodol a diolch iddynt am eu gwasanaeth ardderchog i'r ysgol.

#### STAFF

*Mrs Helen Holland and Mr Dafydd Harris Davies will be retiring at the end of this term and Mrs Amy Carter will also be leaving. All three have been at the school for over ten years and have contributed significantly to the success of the school – Mrs Holland as Additional Learning Needs Coordinator, Mrs Carter as Head of ICT and Mr Harris Davies as Youth Worker. We wish them well for the future and thank them for their excellent contribution to the school.*

## GWYLIAU YN YSTOD TYMOR YSGOL

Ni fydd yr ysgol yn caniatáu unrhyw gais gan rieni i dynnu disgyblion allan o'r ysgol i fynd ar wyliau teuluol ym mlynnyddoedd 10 i 11, a hyd at 5 diwrnod yn unig ym mlynnyddoedd 7 i 9. Os bydd disgybl ar wyliau teuluol am fwy o ddyddiau na hyn yn ystod y flwyddyn ysgol fe all hyn olygu cosb ariannol o £60 y disgybl.

Mae digon o dystiolaeth i ddangos fod colli dyddiau o'r ysgol yn gallu cael effaith andwyol ar addysg plant. Gofynnwn yn garedig i chwi gadw hyn mewn cof wrth drefnu gwyliau teuluol yn y dyfodol.



### HOLIDAYS DURING TERM TIME

*The school will not allow any request from parents to withdraw pupils out of school to go on a family holiday in years 10 to 11, and up to 5 days only in years 7 to 9. If a pupil is on a family holiday for more days than this during the school year it may result in a financial penalty of £60 per pupil.*

*There is ample evidence to show that the loss of school days can be detrimental to a child's education. We kindly ask you to bear this in mind when planning a family holiday in the future.*

### HYSBYSIAD COSB BENODEDIG AR GYFER ABSENOLDEBAU HEB EU HAWDURDODI

Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol yn ofyn statudol ac mae'n angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion gael manteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn ôl y gyfraith, mae'n drosedd os yw rhiant neu ofalwr yn methu sicrhau presenoldeb ei blentyn yn yr ysgol a bod yr absenoldeb hwnnw heb ei awdurdodi gan yr ysgol.

#### Cyfrifoldeb rhieni yw cysylltu gyda'r ysgol cyn 9:00 y bore i hysbysu bod disgybl am fod yn absennol.

Mae canllawiau newydd Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ac mae Hysbysiadau Cosb wedi eu cyflwyno ac yn cael eu gweithredu gan Gyngor Gwynedd. **Nid oes gan yr ysgol ddewis yn y mater hwn – mae'n gyfraith gwlad.** Bydd yr hysbysiadau yma'n digwydd pan fydd absenoldeb disgybl yn cael ei gofnodi fel "anawdurdodedig" fel a ganlyn :

- cymryd gwyliau o'r ysgol pan fo hynny'n groes i bolisi'r ysgol
- absenoldeb a ganiatawyd gan riant sydd yn groes i'r rheolau, e.e. diwrnod siopa, mynd i gyngerdd, ymweld â pherthnasau, adolygu ar gyfer arholiadau, cadw plentyn gartref oherwydd fod cludiant ysgol yn hwyr
- chwarae triwant o'r ysgol
- bod yn hwyr i'r ysgol nifer o weithiau

Mae gan yr Heddlu hefyd bwerau i roi Hysbysiad Cosb i riant os byddant yn gweld plentyn allan yn y gymuned pan ddylai fod yn yr ysgol. Y gosb yw £60 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod, £120 o fewn 42 diwrnod neu, ar ôl 42 diwrnod, caiff y rhiant ei erlyn yn y Llys.

### FIXED PENALTY NOTICE FOR UNAUTHORISED ABSENCE

*Regular and punctual attendance at school is both a legal requirement and essential for pupils to maximise the educational opportunities available to them. In law, an offence occurs if a parent or carer fails to secure their child's attendance at school and that absence is not authorised by the school.*

#### It is the parent's responsibility to contact the school before 9:00 am to inform of any pupil's absence.

*New Welsh Government guidelines have come into force and Penalty Notices have been introduced and are being administered by Gwynedd Council. **The school has no choice in this matter - it's the law.** These notifications will be issued when the pupil's absence is recorded as "unauthorized" as follows:*

- taking a holiday from school contrary to the school's policy
- absence granted by a parent which goes against the rules, e.g. shopping days, attending concerts, visiting relatives, revising for exams, keeping a child home from school due to late school transport
- truancy from school
- being late for school several times

*The Police also have powers to issue Penalty Notices to parents if they see a child out in the community when he/she should be in school. The penalty is £60 if paid within 28 days, £120 within 42 days or, after 42 days, the parent will be prosecuted in Court.*

## GWEITHDY ANEIRIN KARADOG, BARDD PLANT CYMRU, 2015

Bu criw o Flwyddyn 8 yn ddigon ffodus i gael gweithdy gydag Aneirin Karadog, Bardd Plant Cymru 2015. O'r eiliad y camodd Aneirin i mewn i'r ystafell ddosbarth gyda'i ffon fugail drom, roedd y disgyblion wedi'u syfrdanu. Gweithgaredd cyntaf y disgyblion oedd creu rhestr o eiriau sy'n odli gyda'u henwau, a chafwyd sawl ateb diddorol iawn. Yna aethant ati i gyflythrennu enwau ei gilydd ac roedd digon o hwyl ymysg y disgyblion wrth wneud hyn. Erbyn hyn, roedd y disgyblion yn barod i greu rap mewn grwpiau gan ddefnyddio'r hyn roeddent eisoes wedi'i ddysgu a chynnwys odl a chyflythrennu ynddynt. Daeth y gweithdy i ben gyda'r disgyblion yn perfformio eu rapiau ac roedd pob un o safon uchel iawn ac yn ddoniol tu hwnt. Bu i'r disgyblion fwynhau'n arw ac roedd y gweithdy yn fuddiol iawn i bob un ohonynt. Wrth gwrs, mae'n ddigon posib bod Bardd Plant Cymru y dyfodol ymysg y criw!



## ANEIRIN KARADOG WORKSHOP, CHILDREN'S POET LAUREATE 2015

*An Year 8 group was fortunate enough to attend a workshop with Aneirin Karadog, Children's Poet Laureate of Wales 2015. From the moment Aneirin stepped into the classroom with his shepherd's crook, the pupils were amazed. The first activity was to create a list of words that rhymed with their names, and there were several very interesting ones. They then went on to alliterate each other's names and there was plenty of fun among the pupils when doing this. The pupils were then ready to create a rap in groups by using what they had already learned and including rhymes and alliteration. The workshop concluded with the pupils performing their raps, which were all hilarious and of a very high standard. The pupils thoroughly enjoyed the workshop which was very beneficial to all of them. Of course, it's quite possible that a future Children's Poet Laureate of Wales was among the group!*

## CYFLWYNO PROFFIL PERSONOL

Dydd Gwener, Mehefin 19eg, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blynyddoedd 11 ac 13. Braff oedd croesawu Mr Guto Wyn, ein cyn Bennaeth Cynorthwyol sydd erbyn hyn yn Ddirprwy yn Ysgol Glan y Môr fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach ers blynyddoedd i'r disgyblion wisgo'n smart ar gyfer y cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad ar y piano gan Katie Midwinter, Unawd lleisiol 'Harbwr Diogel' gan Samantha Lewis, Pedwarawd lleisiol 'Breuddwydio Wnaf' gan Ceri, Manon, Rhiannon a Math, 'Fflat Huw Puw' gan fechgyn blwyddyn 11 yn ogystal â 'Fix You' gan barti canu blwyddyn 11.



Braff iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.

## PERSONAL PROFILE PRESENTATION

*On Friday, 19th June, a ceremony was held to present the Personal Profiles to years 11 and 13. It was a pleasure to welcome back Mr. Guto Wyn, our former Assistant Headteacher who is now Deputy Headteacher at Ysgol Glan y Môr, as our guest of honour. It is now a longstanding tradition for pupils to wear smart clothing for the ceremony. Musical performances were given by Katie Midwinter on the piano, a vocal solo 'Harbwr Diogel' by Samantha Lewis, a vocal quartet 'Breuddwydio Wnaf' by Ceri, Manon, Rhiannon and Math, 'Fflat Huw Puw' by year 11 boys and 'Fix You' by the year 11 singing group.*

*It was good to see the hall full of parents and friends. The pupils presented gifts to their class teachers as a mark of their appreciation. Thanks to everyone who supported the event.*



## GWOBR DUG CAEREDIN

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae criw o fechgyn blwyddyn 11 wedi bod yn brysur iawn yn ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin.

I gyrraedd y nod bu Gareth Williams, Arwel Davies, Gareth Trow, Matthew Griffith, Huw Owen a Tanvir Iftaker yn trefnu mabolgampau, helpu yn y gymuned gyda nifer o brosiectau i wella'r amgylchedd, dysgu sgiliau newydd fel adeiladwaith, cymryd rhan mewn cyrsiau awyr agored a cherdded 16 milltir gan wersylla am noson a chario popeth roeddent ei angen ar eu cefnau.



## DUKE OF EDINBURGH AWARD

*Over the past year, a group of year 11 boys have been very busy working towards The Duke of Edinburgh Bronze Award. To achieve the award Gareth Williams, Arwel Davies, Gareth Trow, Matthew Griffith, Huw Owen and Tanvir Iftaker organized sporting activities, helped in the community with a number of projects to improve the environment, learned new skills such as construction and participated in outdoor courses such as walking 16 miles and camping overnight while carrying everything they needed on their backs.*

## CLWB GWAITH CARTREF

Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 tan 4:20. Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae disgyblion o flynyddoedd 7 i 11 yn cael eu hannog i fynychu'r Clwb a bydd cyfrifiaduron ar gael yn ogystal a chludiant adref os oes angen.



## HOMEWORK CLUB

*The Homework Club is open from Monday to Thursday from 3:20 to 4:20. This is a great opportunity for pupils to get help with their school work.*

*All pupils from years 7 to 11 are encouraged to attend the Club, pupils will have access to computers and transport home is available if required.*

## YMWELIAD BLWYDDYN 6

Bu'r 77 disgybl, sy'n cynnwys rhai disgyblion o du allan i'r dalgylch, sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi, yma am ddiwrnod yn cael cyfle i flasgu gwersi hanes, mathemateg a chelf, gan dreulio cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!

## YEAR 6 VISIT

*The 77 pupils, including some from outside the catchment area, who will be starting in year 7 in September, were here for a day to have a taste of lessons in history, mathematics and art and they also spent a period in their new registration classes. We look forward to welcoming them!*



## BLWYDDYN 12 - TAITH LLUNDAIN

Ar y 25ain o Fehefin teithiodd criw o fyfyrwyr Blwyddyn 12 i Lundain. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cawsant gyfle i gael blas iawn ar Lundain. Cawsant gyfle i weld rhai o brif atyniadau'r ddinas ac ymweld â'r 'Imperial War Museum' ar ei newydd wedd. Cafodd y criw eu tywys o amgylch San Steffan a chawsant sgwrs gyda'n haelod seneddol Hywel Williams. Wedi diwrnod o grwydro, bu cyfle i ymlacio yn y theatr gyda'r hwyr i wyllo sioe gerdd.

### YEAR 12 LONDON TRIP

*On the 25th of June a Group of Year 12 students travelled to London. Over a period of two days they had a chance to get a real taste of London. They had the opportunity to see some of the main London attractions and they visited the newly revamped Imperial War Museum. The group were guided around the Houses of Parliament and were given the opportunity to talk directly with our MP Hywel Williams. After a long day they were able to relax and enjoy the ambiance of the Covent Garden area before attending a West End Musical.*



## SEREMONI AGORIADOL CWPAN RYGBI'R BYD

Mae côr yr ysgol wedi cael eu gwadd i berfformio yn un o seremonïau agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi. Roedd 118 o gorau o Gymru a Lloegr wedi ymgeisio felly mae hi'n fraint aruthrol i gôr Ysgol Dyffryn Ogwen fod yn un o'r 20 côr sydd yn cymryd rhan – un o ddau yn unig o gorau o Gymru.

Bydd y côr yn croesawu tîm rygbi Canada yn Abertawe ym mis Medi, ac yn perfformio'r gân adnabyddus 'World in Union' – ond yn gwneud hynny yn y Gymraeg yn unol â thraddodiad y côr! Dyma'r unig seremoni lle bydd y gân i'w chlywed yn y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen am brofiad bythgofiadwy ar ôl gwyliau'r Haf.

### RUGBY WORLD CUP OPENING CEREMONY

*The school choir has been invited to perform at one of the opening ceremonies of the Rugby World Cup in September. 118 choirs from Wales and England applied to take part but only 20 were successful – and Ysgol Dyffryn Ogwen is one of only two choirs from Wales.*

*The choir will be welcoming the Canadian rugby team in Swansea in September and singing the unofficial Rugby World Cup anthem – 'World in Union' – but in Welsh. This will probably be the only time during the World Cup when this will be heard in Welsh! The pupils are naturally looking forward to September with great excitement.*



## CINIO YSGOL AM DDIM/GRANT GWISG YSGOL

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, e.e. mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgyblion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol. **Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol.** Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor. Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau 01286 682689.



## FREE SCHOOL MEALS / SCHOOL UNIFORM GRANT

*We are keen to ensure that parents can claim the financial assistance that is available, e.g. grants are available from the County Council to provide free school meals to some pupils and to help parents buy school uniforms. **Remember that you need to renew your application annually.** If you do not make an application before the end of term, you will be expected to pay for your child's school uniform/dinner from the start of term. Contact the Benefits Department on 01286 682689.*

## GWISG SWYDDOGOL YR YSGOL OFFICIAL SCHOOL UNIFORM

### Bechgyn

- Crys chwys swyddogol yr ysgol
- Crys polo gwyn gyda logo'r ysgol
- Trowsus plaen du (DIM jîns du na throwsus trac wisg)
- Esgidiau du plaen.

### Genethod

- Crys chwys swyddogol yr ysgol
- Crys polo glas golau gyda logo'r ysgol
- Trowsus plaen du (DIM jîns du, trowsus trac wisg na leggings) neu sgert ddu o hyd addas - sef dim llawer uwch na'r pen-glin
- Esgidiau **sawdl isel** du plaen.

### Chwaraeon – Bechgyn

- Esgidiau pêl-droed / rygbi ac esgidiau chwaraeon
- Siorts du
- Crys-T gwyn
- Crys rygbi glas yr ysgol
- Sanau pen-glin du a phadiau pêl-droed

### Chwaraeon – Genethod

- Esgidiau chwaraeon
- Siorts – glas tywyll
- Crys-T gwyn
- Siwt redeg – du neu las tywyll
- Sanau glas tywyll a phadiau

### Boys

- Official school sweatshirt
- White polo shirt with the school logo
- Plain black trousers (NO black jeans or tracksuit trousers)
- Plain black shoes.

### Girls

- Official school sweatshirt
- Light blue polo shirt with the school logo
- Plain black trousers (NO black jeans, tracksuit trousers or leggings) or a black skirt of suitable length – not much above the knee.
- Plain black **low** heeled shoes.

### Games – Boys

- Football / rugby boots and sports shoes
- Black shorts
- White T-shirt
- The school blue rugby shirt
- Black knee-length socks and football pads

### Games – Girls

- Sports shoes
- Shorts – dark blue
- White T-shirt
- Tracks– black or dark blue
- Dark blue socks and pads

**Nid oes caniatâd i ddisgyblion wisgo tlysau heblaw am: oriawr, un pâr o 'studs' plaen yn y clustiau, un fodrwy blaen ar fys. Ni chaniateir unrhyw emwaith arall o unrhyw fath fel 'studs' ar unrhyw ran arall o'r wyneb. Ni chaniateir gwisgo capiau, colur na phaent ewinedd ac ni chaniateir steil gwallt eithafol o ran lliw, hyd neu arddull.**

***Pupils are not permitted to wear jewellery apart from: a watch, one pair of plain ear 'studs', one plain ring on a finger. No other jewellery of any sort is permitted such as studs on any other part of the face. It is not permitted to wear caps, make-up or nail varnish and extreme hairstyles are not allowed, whether with regard to colour, length or style.***

## ESGIDIAU YSGOL / SCHOOL SHOES

Mae'r rheolau ynghylch gwisg ysgol yn datgan yn glir y dylai'r holl ddisgyblion wisgo esgidiau PLAEN DU. Ni chaniateir esgidiau sydd â streipiau, logos, neu unrhyw rannau gwyn neu liw arall. Gofynnir am eich cydweithrediad i sicrhau cysondeb ynghylch y mater hwn os gwelwch yn dda.

*The school rules regarding school uniform state clearly that all pupils should wear PLAIN BLACK shoes. Shoes are not permitted that have stripes, logos or any other parts coloured white or any other colour. We ask for your cooperation to ensure consistency in this matter, please.*

### **ADDAS SUITABLE**



### **ANADDAS UNSUITABLE**



**Pris Cinio Ysgol 2015/2016**  
**School Meals Price List 2015/2016**

PRYD LLAWN (PRIF GWRS A PHWDIN)	£2.30	FULL MEAL (MAIN COURSE AND PUDDING)
PRIF GWRS	£1.85	MAIN COURSE
PECYN (RÔL A DIOD, NEU GACEN)	£1.85	PACKAGE (ROLL AND DRINK, OR CAKE)
PWDIN	£1.45	PUDDING
POWLEN FFRWYTH	£0.80	FRUIT BOWL
POWLEN SALAD	£1.80	SALAD BOWL
TATEN TRWY'I CHROEN	£1.80	JACKET POTATO
BAP WEDI LLENWI	£1.80	FILLED BAP
RÔL WEDI LLENWI	£1.40	FILLED ROLL
BRECHDAN	£1.40	SANDWICH
FAJITAS	£1.80	FAJITAS
PASTA GYDA SAWS	£1.80	PASTA WITH SAUCE
PANINIS	£1.70	PANINIS
CACEN / BISGED	£0.80	CAKE / BISCUIT
YSGYTLAETH	£0.80	MILK SHAKE
POTEL DŴR	£0.60	BOTTLED WATER
TOST	£0.25	TOAST

**MABOLGAMPAU DYFFRYN OGWEN**

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ar Fehefin 24ain a chafwyd diwrnod da o gystadlu yn y tywydd braf. Tryfan oedd y tŷ buddugol eleni.

**DYFFRYN OGWEN SPORTS DAY**

The school sports day was held this year on 24th June. We had a good day of competitions in the fine weather. Tryfan was the victorious house this year.

